Ken Finch
Trysorydd
Awdurdod Tân Gogledd Cymru
Bodlondeb
CONWY
LL11 1WF

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | 3 Rhagfyr 2003 |
| **Ein cyfeirnod** | |
| **Eich cyfeirnod** | |
| **Ffôn** | 01244 288530 |
| **Ffacs** | 01244 288531 |
| **Tudalennau** | **1** o **3** |

Annwyl Ken

**Llythyr o Gynrychiolaeth ar gyfer Cyfrifon Terfynol 2002/2003**

Yn unol a'n gweithdrefn flynyddol arferol ac SAS 440 (Cynrychiolaethau Rheolwyr) mi fuaswn yn ddiolchgar os y gallech ddarparu cynrychiolaethau ffurfiol ar nifer o faterion sy'n ymwneud â'r cyfrifon ariannol .

Fel rhan o fy archwiliad ar gyfer 2002/2003, ac er mwyn datgan barn os mae'r datganiadau ariannol yn cyflwyno sefyllfa ariannol yr Awdurdod yn deg, mi fuaswn yn ddiolchgar os gallech ddarparu y cynrychiolaethau canlynol:

1. Fod y datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi yn unol a'r Côd Ymarfer ar Gyfrifon Awdurdodau Lleol (ACOP) a'r gofynion a osodwyd yng Nghod Ymarfer Cyfrifon Gwerth Gorau (BVACOP).

2. Ni cheir unrhyw asedau/cyfrifoldebau amodol sylweddol na gweithgareddau ôl fantolenni , ac eithrio fel y dangoswyd mewn datganiadau ariannol. Yn benodol;

    - nid oes unrhyw eitemau sylweddol yn aros am ymgyfreithiad,

    - nid oes unrhyw ymrwymiadau materol na materion cyfundebol, ar wahân i'r rhai sydd wedi cael eu datgan eisoes mewn datganiadau ariannol

3. Fod darpariaeth a rhwymedigaeth amodol wedi cael ei drin yn unol a gofynion FRS12.

4. Fod yr holl drafodion a wnaed gan yr Awdurdod wedi eu hadlewyrchu a'u cofnodi yn gywir yng nghofnodion y cyfrifon.

5. Fod cyfansymiau sy'n cael eu cynnwys fel gwariant er diben cyfalaf yn unol gyda gofynion y Ddeddf Tai a Llywodraeth Leol 1989.

6. Fod asedau sefydlog, gan gynnwys unrhyw ychwanegiadau a gweinyddiadau yn ystod y flwyddyn, wedi cael eu nodi a'u trin yn gywir ac yn briodol ar fantolen yr Awdurdod.

7. Ni does unrhyw gynlluniau na bwriadau y gall effeithio ar werth neu ddosbarthiad asedau a rhwymedigaethau a fod unrhyw leihad parhaol o asedau sefydlog wedi cael ei nodi a'i drin yn unol â FRS 11.

8. Ni chafwyd unrhyw:

    - Afreoleidd-dra yn ymwneud â rheolwyr sydd efo rôl sylweddol gyda systemau o reolaeth ariannol mewnol.

    - Afreoleidd-dra yn ymwneud â gweithwyr eraill a all gael effaith faterol ar ddatganiadau ariannol.

- Gyfathrebiadau gan asiantaethau rheoleiddiol ynglŷn a diffyg cydymffurfiad, neu ddiffygion mewn, ymarferion adroddiadau ariannol a all gael effaith faterol ar ddatganiadau ariannol.

9. Gynhorthwy, cymdeithion, mentrau ar y cyd neu drefniadau ar y cyd ar wahân i'r rhai yn y datganiadau cyfrifon a nodiadau perthynol.

10. Mae darpariaeth dyledion gwael digonol wedi cael ei wneud ar gyfer pob categori o ddyledwyr.

11. Ddatganiadau ariannol a/neu nodiadau i'r cyfrifon sy'n cynnwys unrhyw –

    - Troseddau neu droseddau posibl o gyfreithiau neu reoliadau lle mae eu heffeithiau yn cael eu hystyried yn y datganiadau ariannol neu fel sail ar gyfer cofnodi posibilrwydd o golled.

    - Ffactorau materol eraill a fyddai'n dylanwadu barn y darllenydd o'r datganiadau.

12. Mae darpariaeth, pan yn faterol, wedi cael ei wneud i leihau stociau gormodol neu ddarfodedig neu eitemau'r stocrestr i'w gwerth dichonadwy net amcangyfrifol.

13. Nid yw asedau'r Awdurdod wedi cael eu defnyddio mewn unrhyw fodd fel sicrwydd ar gyfer benthyciadau.

14. Mae'r holl rwymedigaethau yn ôl y prydlesau ariannol neu gontractau hurbryniant wedi cael eu datgelu yn y cyfrifon.

15. Ni does unrhyw sicrwydd ariannol wedi cael ei roi i drydedd bartïon.

16. Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio gyda holl agweddau cytundebau amodol a fyddai angen newidiadau i, neu ddatgeliad yn y, datganiadau ariannol.

17. Nid oes unrhyw drafodion materol eraill gyda phartïon perthynol (fel y diffiniwyd gan FRS 8), ar wahân i'r rhai a gofnodwyd a datgelwyd.

18. Mae anghenion datgelu FRS 17 wedi cael eu cyflawni ac mae'r ffigyrau a ddefnyddiwyd wedi cael eu casglu yn unol a'r egwyddorion cyfrifo sy'n ddisgwyliedig yn gyffredinol.

19. Mae dyledwyr a chredydwyr mewnol wedi cael eu nodi a'u symud o'r cyfrifon cyfunol.

Mewn perthynas ag eitem 2 uchod mi fuaswn yn ddiolchgar os y gallwch ddarparu manylion i mi ynglŷn ag unrhyw faterion sylweddol sydd heb gael eu cynnwys yn y cyfrifon a'ch cyfiawnhad am eu triniaeth, os oes unrhyw rai.

Er mwyn i chi allu arwyddo y gynrychiolaeth rhagwelaf y bydd angen i chi ymgynghori gyda'r swyddog monitro a swyddogion eraill yn ôl yr angen.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu yr hoffech drafod unrhyw rai o'r pwyntiau yma mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

David Jones
Rheolwr Archwilio

David Jones

Y Comisiwn Archwilio yng Nghymru

Annwyl David

**Llythyr o Sylwadau ar gyfer Cyfrifon Terfynol 2002/2003**

Yn dilyn eich llythyr dyddiedig 3 Rhagfyr 2003, rwyf yn cadarnhau, cyn belled ag yr wyf yn gwybod ac yn credu, ac wedi gwneud yr ymholiadau priodol, fod yr ymholiadau a ganlyn yn cael eu cyflwyno i chi mewn cysylltiad efo'ch archwiliad am y flwyddyn yn dod i ben ar 31 Mawrth 2003. Nodwch os gwelwch yn dda nad wyf yn gwneud sylwadau ar unrhyw fater nad wyf yn ymwybodol ohono.

1. Cafodd y datganiadau ariannol eu paratoi yn unol a'r Côd Ymarfer ar Gyfrifon Awdurdodau Lleol (ACOP) a'r gofynion a osodwyd yng Nghod Ymarfer Cyfrifon Gwerth Gorau (BVACOP).

2. Ni cheir unrhyw asedau/cyfrifoldebau amodol sylweddol na gweithgareddau ôl fantolenni , ac eithrio fel y dangoswyd yn y datganiadau ariannol. Yn benodol, nid oes unrhyw eitemau sylweddol yn aros am ymgyfreithiad ac nid oes unrhyw ymrwymiadau materol na materion cytundebol, ar wahân i'r rhai sydd wedi cael eu datgan eisoes mewn datganiadau ariannol

3. Cafodd darpariaeth a rhwymedigaeth amodol ei drin yn unol a gofynion FRS12.

4. Mae'r holl drafodion a wnaed gan yr Awdurdod wedi eu hadlewyrchu a'u cofnodi yn gywir yng nghofnodion y cyfrifon.

5. Mae'r cyfansymiau sy'n cael eu cynnwys fel gwariant er diben cyfalaf yn unol gyda gofynion y Ddeddf Tai a Llywodraeth Leol 1989.

6. Mae asedau sefydlog, gan gynnwys unrhyw ychwanegiadau a gweinyddiadau yn ystod y flwyddyn, wedi cael eu nodi a'u trin yn gywir ac yn briodol ar fantolen yr Awdurdod.

7. Ni does unrhyw gynlluniau na bwriadau y gall effeithio ar werth neu ddosbarthiad asedau a rhwymedigaethau a fod unrhyw leihad parhaol o asedau sefydlog wedi cael ei nodi a'i drin yn unol â FRS 11.

8. Ni chafwyd unrhyw:

   - Afreoleidd-dra yn ymwneud â rheolwyr sydd efo rôl sylweddol gyda systemau o reolaeth ariannol mewnol. Wrth ddatgan hyn, rwyf wedi cymryd mai ystyr "afreoleidd-dra" ydi un o natur twyll.

   - Afreoleidd-dra yn ymwneud â gweithwyr eraill a all gael effaith faterol ar ddatganiadau ariannol.

   - Gyfathrebiadau oddi wrth asiantaethau rheoleiddiol ynglŷn a diffyg cydymffurfiad, neu ddiffygion mewn, ymarferion adroddiadau ariannol a all gael effaith faterol ar y datganiadau ariannol.

20. Nid oes unrhyw is-gwmnïau, cyfranogion, mentrau ar y cyd neu drefniadau ar y cyd ar wahân i'r rhai yn y datganiadau cyfrifon a nodiadau perthynol.

21. Mae darpariaeth dyledion gwael digonol wedi cael ei gwneud ar gyfer pob categori o ddyledwyr.

22. Mae'r datganiadau ariannol a/neu nodiadau i'r cyfrifon yn cynnwys unrhyw, os yn briodol a bod angen:-

- Troseddau neu droseddau posibl yn erbyn cyfreithiau neu reoliadau lle mae eu heffeithiau yn cael eu hystyried yn y datganiadau ariannol neu fel sail ar gyfer cofnodi posibilrwydd o golled.

- Ffactorau materol eraill a fyddai'n dylanwadu barn y darllenydd o'r datganiadau.

23. Mae darpariaeth, pan yn berthnasol, wedi cael ei gwneud i leihau stociau gormodol neu ddarfodedig neu eitemau'r stocrestr yn ôl y gwerth y gellir ei amcangyfrif neu ei gael amdanynt.

24. Nid yw asedau'r Awdurdod wedi cael eu defnyddio mewn unrhyw fodd fel sicrwydd ar gyfer benthyciadau.

25. Mae'r holl rwymedigaethau yn ôl y prydlesau ariannol neu gontractau hurbryniant wedi cael eu datgelu yn y cyfrifon.

26. Ni does unrhyw sicrwydd ariannol wedi cael ei roi i drydydd partïon.

27. Mae'r Awdurdod wedi cydymffurfio gyda holl agweddau amodau cytundebau a fyddai'n golygu angen newidiadau neu ddatgelu yn y datganiadau ariannol.

28. Nid oes unrhyw drafodion perthnasol eraill gyda phartïon perthynol (fel y diffiniwyd gan FRS 8), ar wahân i'r rhai a gofnodwyd ac a ddatgelwyd.

29. Mae gofynion datgelu FRS 17 wedi cael eu cyflawni ac mae'r ffigyrau a ddefnyddiwyd wedi cael eu casglu at ei gilydd unol a'r egwyddorion cyfrifo sy'n ddisgwyliedig yn gyffredinol.

30. Mae dyledwyr a chredydwyr mewnol wedi cael eu nodi a'u symud o'r cyfrifon cyfunol.

Trefnwyd i roi copi o'r llythyr hwn i'r Swyddog Monitro a'r Prif Swyddog Tân.

Yn gywir

Trysorydd

Copïo i: Ian Miller, Swyddog Monitro

Simon Smith, Prif Swyddog Tân